# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn
# Ysgol Llidiardau
# Rhoshirwaun Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 8LB

**Rhif yr Ysgol: 6612071**
**Dyddiad yr Arolygiad: 19/01/09**
**gan**
**Alan Walters**
**79668**

**Dyddiad Cyhoeddi: 23/03/09**
**O dan rif contract Estyn: 1109108**

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

## Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

143. Mae gan yr ysgol amrediad dda o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol, megis, ffeiriau, cyngherddau, a gweithgareddau eraill. Mae'r ysgol yn rhoi profiadau da i'r disgyblion drwy drefnu cyfraniadau i achlysuron cymunedol ac i elusenau. Cyfranna y rhieni hefyd yn dda ac mae "Cymdeithas Rhieni ac Athrawon" yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn weithgar iawn yn y gynhaliaeth o'r ysgol. Rhoddir sylw dda hefyd i'r henoed ac achosion haeddiannol eraill. Mae'r ysgol yn bwysig iawn yn Rhoshirwaun a'r ardal bellach. Mae y cysylltiadau yma yn ymgyfoethogi profiadau addysgol a datblygiad personol y disgyblion, ac yn eu paratoi i ddyfod yn aelodau cyfrifol o'i cymuned.

147. Mae'r sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy yn cael sylw datblygol. Ni does ar hyn o bryd gynllun ysgol werdd, ond mae ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion ail-gylchu a delio gyda gwastraff yn cael sylw. Serch hyn mae lle i ddatblygu yn bellach. Rhoddir sylw hefyd i elfennau dinasyddiaeth fyd-eang, gyda astudiaeth drwy gyfrwng Dolen Cymru ar Lesotho, ac mae gwybodaeth am wledydd tramor yn cael ei ddelio drwy gyfrwng y rhaglen addysgol. Cyfranna y disgyblion hefyd at elusenau. Cydnabyddir fod lle hefyd i ddatblygu y canfyddiadau yma yn bellach.

148. Darperir cyfleoedd da i hyrywddo gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill drwy waith thematig fel gwaith ar Lesotho.

150. Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae cydberthynas aelodau`r ysgol yn gadarnhaol ac mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion ac ymwelwyr. Yn ystod amserau cylch, anogir y disgyblion i rannu eu pryderon a mynegi eu barn, tra`n gwrando gyda pharch ar farn eraill. Mae gweithgareddau o addoli a arweinir gan ddisgyblion yn cynnig cyfleoedd i fyfyrio fel ysgol gyfan ac fe`u cefnogir gan ymweliadau rheolaidd gan glerigwyr. Cyflwynir negeseuon moesol yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol.